**Cwestiynau Cyffredin: Gwyliau yn ystod y tymor ysgol yng Nghymru**


Gwybodaeth i rieni a gofalwyr sy'n ystyried trefnu gwyliau yn ystod y tymor

Mae llawer o brofiadau tu allan i'r ysgol y gall plant ddysgu oddi wrthyn nhw a fydd yn cyfoethogi eu bywydau. Fodd bynnag, dim ond am gyfnod byr y mae dysgwyr yn yr ysgol ac mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau un o'r amser hwn er lles eich plentyn chi. Os ydych chi'n penderfynu bod yn rhaid i chi drefnu gwyliau yn ystod y tymor ysgol, byddwch cystal â phwyso a mesur hynny yn erbyn y ffaith efallai y bydd gwaith ysgol eich plentyn yn dioddef ac na fydd yn gwneud cystal mewn arholiadau os yw'n methu'r ysgol.

Mae ymchwil yn awgrymu bod cysylltiad rhwng presenoldeb rheolaidd plentyn yn yr ysgol a pha mor dda maen't yn perfformio mewn arholiadau llwyddo yn yr ysgol. Mae'r graff ar y dudalen nesaf yn dangos yn gyffredinol, bod disgyblion gyda chyfraddau uwch o absenoldeb yn llai tebygol o gyflawni pum gradd A*-C yn ei arholiadau TGAU.

Mae'r llinell las tywyll yn dangos faint o blant oedd yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth, ac yn un ai Cymraeg fel iaith gyntaf neu Saesneg ym Mlwyddyn 6. Mae'r llinell las golau yn dangos faint o blant a gafodd bump TGAU ar raddau A*-C ym Mlwyddyn 11. Yn y ddau achos, Yn y ddau achos, mae'r siart yn awgrymu bod yn

gyffredinol, mae disgyblion gyda chyfraddau absenoldeb uwch cyflawni canlyniadau is.




Mae nifer o gwestiynau cyffredin isod a fydd yn eich helpu i wneud penderfyniad ac yn rhoi gwybod i chi beth allai ddigwydd pe byddech yn tynnu eich plentyn allan o'r ysgol yn ystod y tymor.

1: A oes gan yr ysgol awdurdod i ganiatáu i blant fethu'r ysgol er mwyn mynd ar wyliau?

A: **Oes** Er hynny, nid oes gan rieni hawl awtomatig i dynnu disgyblion o'r ysgol i gymryd gwyliau yn ystod y tymor ysgol ac mae'n rhaid gofyn am ganiatâd o flaen llaw. Mae gan ysgolion hawl i awdurdodi absenoldeb, yn ôl eu disgresiwn, o hyd at 10 diwrnod yn ystod blwyddyn ysgol ar gyfer gwyliau teuluol yn ystod y tymor os ydyn nhw'n credu bod angen.

2: Pam mae'r ysgol yn gwneud y penderfyniad hwn?

A: Mae'r holl wybodaeth sydd ei hangen i wneud penderfyniad cytbwys ar gael i benaethiaid.  Gall pennaeth ystyried amgylchiadau unigol fesul achos.  Bydd amryw o bethau'n cael eu hystyried, gan gynnwys yr adeg o'r flwyddyn, pa mor hir yw'r gwyliau, y rheswm dros y gwyliau, yr effaith a gaiff ar ddysgu, amseru arholiadau neu brofion, amgylchiadau'r teulu a dymuniadau'r rhieni, yn ogystal â phresenoldeb cyffredinol a chyflawniad y disgybl.

3: Beth sy'n digwydd os yw'r pennaeth yn gwrthod rhoi caniatâd?

A: Os bydd pennaeth yn penderfynu peidio â chytuno i gais gan riant i fynd â'i blentyn ar wyliau yn ystod y tymor ysgol, a'r rhiant yn penderfynu mynd â'i blentyn er gwaethaf hynny, caiff hyn ei ystyried yn 'absenoldeb anawdurdodedig'.  Dim ond ysgolion sy'n gallu awdurdodi absenoldeb, dydy rhieni ddim yn gallu gwneud hynny.

4: Os yw absenoldeb yn anawdurdodedig, a fyddwn i'n cael hysbysiad o gosb yn awtomatig?

A: Na fyddech, byddai'n dibynnu ar gofnod absenoldeb blaenorol y plentyn.  Mae hysbysiadau cosb yn cael eu hanfon am beidio â mynd i'r ysgol yn rheolaidd: mewn geiriau eraill, methu'r ysgol heb awdurdod yn rheolaidd.  Bydd gan bob awdurdod lleol fanylion ynglŷn ag anfon hysbysiadau cosb wedi'u nodi yn eu Codau Ymddygiad unigol. Byddwch cystal â darllen y cod cyn i chi wneud penderfyniad. Cysylltwch â'ch awdurdod lleol i gael rhagor o wybodaeth.

5: Beth sy'n digwydd os yw pobl wedi trefnu gwyliau ar gyfer y flwyddyn nesaf cyn i'r ddeddfwriaeth ynglŷn â hysbysiadau cosb ddod i rym?

A: Y pennaeth fydd yn delio â materion fel hyn fesul achos, yn ôl ei ddisgresiwn.